# MEREDITH, THOMAS (fl. 1747-70), cynghorwr Methodistaidd, ac Antinomiad

**Enw:** Thomas Meredith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr Methodistaidd, ac Antinomiad
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Hanoedd o Lanbrynmair, ond trigai yng Nghoed-y-rhos, Mochdref, Sir Drefaldwyn. Enwir ef yn gynghorwr yn sasiwn y Tyddyn, 1747. Perthynai i blaid Howel Harris yn 1750, ond trowyd ef allan yn 1751. Dywedir iddo yro at Antinomiaeth a mynd o dan ddylanwad Thomas Sheen. Dychwelodd i'w gynefin a llwyddodd i ennill rhai canlynwyr. Cyhoeddwyd casgliad o'r eiddo yn 1770 allan o waith William Erbury a Morgan Llwyd, etc., sef *A Scourge for the Assirian the great Oppressor* (W. Laplain, Salop). Ceir ei olygiadau mewn llyfr a gyhoeddwyd yn 1770 ar ôl ei farw (o'r un wasg), sef *An Illustration of Several Texts of Scripture*, sy'n cynnwys rhai o'i lythyrau. Ceir elfen gyfriniol yn ei waith, a thuedd at ddaliadau'r hen heretigiaid ' Monophysitaidd. '

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 136, 143

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), i, 409; ii, 241, 324, 377

J. Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist: athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist, yn bennaf yn ei pherthynas â Chymru* (Liverpool 1931), 140

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929), 79, 183, 187-9

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 518

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 195


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734505


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu